



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Ymgyfraniad

1: Galluogi diwylliant o ymgyfraniad arwyddocaol yn eich sefydliad

2: Gweithio gyda phobl a rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion, eu dyheadau a'u syniadau

3: Sicrhau eich bod yn adlewyrchu anghenion, dyheadau a syniadau pobl wrth wneud penderfyniadau a dangos sut yr ydych wedi gwneud hyn





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Ymgyfraniad

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir ymgyfraniad fel rhan o'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' fel a ganlyn:

Mae'n rhaid i gorff cyhoeddus dalu sylw i...

(b) pwysigrwydd ennyn ymgyfraniad personau eraill â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth i. Cymru (lle mae'r corff yn ymarfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan), neu:

ii. y rhan o Gymru lle mae'r corff yn ymarfer ei swyddogaethau.



Diffinio'r ffordd o weithio

Fel ffordd o weithio, mae ymgyfrannu'n ymwneud â chynnal sgysiau cyfoethog ac ystyrion gyda phobl yn eich cymuned, gan ddarganfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac adlewyrchu hynny yn eich penderfyniadau.

Darganfu adolygiad diweddar mai dim ond 27% o oedolion oedd yn cytuno y gallent hwy yn bersonol ddylanwadu ar benderfyniadau. Mae yna hefyd deimlad o 'alaru ar ymgynghori' oherwydd nifer mawr o enghreifftiau o ymgyfrannu heb lawer o drefn ar faterion sy'n debyg i'w gilydd, a phobl yn methu deall bob amser sut mae eu barn wedi cael sylw.

Mae ymgyfraniad yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored i ddylanwad dinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' phobl yn hytrach na 'gwneud pethau iddynt'. Mewn cymhariaeth ag ymgynghori, mae ymgyfrannu'n golygu mynd ati i weithio gyda phobl yn y cyfnod cynnar, megis helpu i nodi materion a datrysiadau posibl, a chael cefnogaeth i barhau i ymgyfrannu drwy holl gyfnod dylunio, gweithredu a phrosesu gwerthuso.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Diffinio'r ffordd o weithio

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y ffordd hon o weithio

Galluogi diwylliant o ymgyfraniad arwyddocaol yn eich sefydliad

[\(Gweler taith ymgyfraniad pwnc 1: Diwylliant ymgyfrannu sefydliadol\)](#)

Gweithio gyda phobl a rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion, eu dyheadau a'u syniadau

[\(Gweler taith ymgyfraniad pwnc 2: Ymgyfrannu wyneb yn wyneb\)](#)

Sicrhau eich bod yn adlewyrchu anghenion, dyheadau a syniadau pobl wrth wneud penderfyniadau a dangos sut yr ydych wedi gwneud hyn

[\(Gweler taith ymgyfraniad pwnc 3: Effaith a chyfleu ymgyfraniad\)](#)

Galluogwyr

Achieving this way of working is **more likely to happen** when...

- Pan fydd sefydliadau'n galluogi gofod, amser ac adnoddau ar gyfer ymgyfraniad ystyrlon.
- Pan fydd dinasyddion yn deall perthnasedd ymgyfraniad i'w bywydau, ac yn ei weld fel dull o greu newid.
- Pan fydd sefydliadau'n esbonio'r effaith a gafodd yr ymgyfraniad, er enghraifft, ymagwedd "dywedoch chi, gwnaethom ni", gan adeiladu tryloywder ac ymddiriedaeth.
- Pan fydd prosiectau sy'n bodoli eisoes yn profi bod ymgyfraniad da yn medru ychwanegu gwerth ac arbed costau hirdymor.
- Pan fydd ymgyfraniad yn cael ei weld fel rhywbeth i'w fwynhau ac yn rhywbeth buddiol i staff, sefydliadau a dinasyddion fel ei gilydd.
- Pan fydd ymgyfraniad yn cael ei gyd-drefnu yn hytrach na'i osod mewn seilos.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod yn **llai tebygol o ddigwydd:**

- Pan na fydd sefydliadau'n buddsoddi mewn sgiliau ac yn methu caniatáu amser i ennyn ymgyfraniad pobl na throsglwyddo'r canlyniadau mewn dull ystyrlon i bolisi a phenderfyniadau.
- Pan fydd ymgyfraniad parhaus grŵp amrywiol o ddinasyddion a rhanddeiliaid yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cymryd amser ac sy'n ddryslyd oherwydd gwahanol safbwyntiau.
- Pan na fydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n cael eu dal i gyfrif mewn perthynas â mewnbwn cyhoeddus.
- Pan fydd sefydliadau'n mabwysiadu ymagweddau 'ymgyngori' traddodiadol tuag at ymgyfrannu.
- Pan fydd cyfleu'r hyn sydd wedi newid fel canlyniad i ymgyfraniad yn anghyson, a dinasyddion 'wedi alaru ar ymgyngori'.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Ymgyfraniad

2: Ymgyfraniad wyneb yn wyneb

Gweithio gyda phobl a rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion, eu dyheadau a'u syniadau.

Diffinio'r mater

Darganfu'r arolwg Community Life (2016-17) mai dim ond 27% o oedolion yn y DG oedd yn cytuno y gallent, yn bersonol, ddylanwadu ar benderfyniadau. Weithiau mae'r ffordd yr ydym yn cynnal sgysiau gyda'r cyhoedd yn eu dieithrio neu'n methu cyrraedd gwreiddyn yr hyn sydd o ddiddordeb gwirioneddol iddynt. Dylid sicrhau bod yna gyfleoedd priodol a hygyrch i'r cyhoedd a rhanddeiliaid i ymgyfrannu a llunio'r gwasanaethau

a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, sy'n ennyn eu hymgyfraniad mewn ffordd sy'n berthnasol iddynt hwy ac sy'n defnyddio i'r eithaf yr wybodaeth a'r profiad sydd ganddynt i'w gynnig.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill:



Taith tuag at Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Pwnc 5: Diwylliant sydd ar gael i bawb



Taith tuag at Gymru o gymunedau cydlynus

Pwnc 1: Pobl weithgar mewn cymunedau

Gwneud Newidiadau Syml

Ysgrifennwch mewn Cymraeg a Saesneg clir safonol mewn dogfennau cyhoeddus a sicrhewch eich bod yn gofyn i rai 'nad ydynt yn arbenigwyr' i gadarnhau ei fod yn gwneud synnwyr.

Cynhyrchwch grynodedbau hawdd eu deall o'r mater fel y gall dinasyddion a rhanddeiliaid deimlo eu bod yn gwybod digon i drafod y mater.

Nodwch a mapiwch sefydliadau angori cymunedau a fydd efallai'n gallu hwyluso ymgyfraniad aelodau'r gymuned.

Trefnwch i bobl fedru dewis ymgysylltu gan ddefnyddio dogfennau 'hawdd eu darllen' a BSL lle mae angen hynny.

Defnyddiwch amrywiaeth o ddulliau a fformatau ymgysylltu hygyrch a chydlynus, a fydd o leiaf yn medru galluogi pobl i ymgyfrannu ar lein ac all-lein

E.e. [Mae'r Ganolfan Gyflynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn rhoi gwybodaeth ar nifer o ddulliau o ymgysyllt](#)

Ewch â chyfleoedd ymgyfrannu i bobl, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ddod atoch chi. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd digidol ac all-lein.

E.e. [Archwiliodd Llywodraeth Cymru hyn gyda'u gwaith ymgyfrannu'n ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.](#)

Defnyddiwch grwpiau a fframweithiau sy'n bodoli eisoes i nodi a hysbysebu'r cyfleoedd ar gyfer ymgyfrannu.

Ymgynghorwch â staff rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl a chymunedau, ar y dulliau gorau o ymgysylltu â grwpiau penodol gan ystyried lleoliadau, mathau o ymgysylltu a sut i fynd i'r afael â rhwystrau penodol.

Mapiwch lwyfannau digidol i ddeall y ffordd orau o gyfathrebu â gwahanol grwpiau demograffig a sicrhau fod yr wybodaeth hon ar gael i'r holl staff sy'n arwain gwaith ymgyfrannu yn eich sefydliad.

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Aliniwch ddigwyddiadau ymgyfrannu mewn trafndiaeth gyhoeddus a sicrhewch fod lleoliadau hygyrch yn cael eu defnyddio.

Nodwch a rhowch wybod i ddinasyddion a rhanddeiliaid sy'n mynychu digwyddiadau a gweithdai am gynlluniau rhannu ceir.

Ymgysylltwch â thema yn hytrach na pholisi.

E.e. [Mae 'Mesur y Mynydd' yn cynnal digwyddiadau yn cynnal digwyddiadau rheithgor dinasyddion i ganiatáu i aelodau'r gymuned ymgysylltu â thema benodol.](#)

Sicrhewch eich bod yn cynnal sgysiau am ['yr hyn sydd o bwys'](#).

Defnyddiwch 'ddyddiau rhyngwladol y Cenedloedd Unedig ar...' i addysgu, ysbrydoli ac ennyn ymgyfraniad pobl.

E.e. [24ain Ionawr: Diwrnod Rhyngwladol Addysg.](#)

Rhannwch ddigwyddiadau ymgyfraniad cyhoeddus a data gyda sefydliadau eraill.

E.e. [Rhannodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru a sefydliadau lleol ddata a digwyddiadau ymgysylltu'r Prosiect Straeon y Cymoedd.](#)

Anelwch ar oresgyn yr hyn a ganfyddir fel anghydbwysedd grym drwy wneud pethau'n wahanol, megis peidio 'siarad at' gynulleidfa a gwisgo dillad mwy anffurfiol wrth ymgysylltu â chymunedau a phobl ifanc.

Sefydlwch fecanweithiau i fapio cynlluniau cyfranogi i sicrhau nad yw ymgysylltu'n mynd yn fwrn.

Chwiliwch yn ddyfal am fewnbwn oddi wrth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a rhai nad ydynt fel arfer yn cael gwrandawriad.

ee

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Cysylltwch yn gyson â phartneriaethau a grwpiau sy'n bodoli eisoes, megis sefydliadau angori cymunedol a rhwydweithiau i adeiladu perthynas o ymddiriedaeth ac agosatrywydd.

E.e. Mae [Dŵr Cymru](#) wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon yn eu gwaith yn Rhondda Fach.

Darparwch sesiynau neu syrjeris galw heibio rheolaidd ar gyfer ymgyfraniad ac adborth.

Sefydlwch gyfleoedd i fapio profiadau bywyd a gwybodaeth bersonol o faterion yn ymwneud â pholisi allweddol a dylunio gwasanaeth ymhlith staff fel y gallant gyfrannu tuag at ddylunio gwasanaeth polisi.

Gwnewch yn fawr o bob cysylltiad - anogwch staff i chwilio am adborth oddi wrth unigolion a chymunedau a sicrhewch fod yna fecanwaith sefydliadol ar gyfer defnyddio hyn i drwytho dyluniad a darpariaeth polisi.

Defnyddiwch senarios a data/gwybodaeth gyfredol i greu'r cyd-destun ar gyfer gweithgareddau ymgyfrannu. Gellid gosod hyn yn y dyfodol gan ddefnyddio tueddiadau hirdymor.

Cynhaliwch weithgareddau megis parti cymunedol, perfformiadau theatr neu wyl o gwmpas y pwnc o dan sylw i gael pobl i archwilio'r mater ymhellach.

E.e. Mae [Theatr Hijinx](#) wedi perfformio fforwm rhyngweithiol i archwilio materion yn ymwneud ag anabledau dysgu.

Darparwch gyfleoedd i adrannau a sefydliadau i rannu casgliadau, prosesau a dysgu fel rhwydwaith cyfnewid arfer da rheolaidd.

E.e. Mae gan **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf** grŵp Cyfathrebu Ymgyfraniad a Gwybodaeth sy'n cwrdd yn rheolaidd ac sy'n cynhyrchu cylchlythyr i rannu arfer da.

Bod Yn Fwy Anturus

Nodwch pa sgiliau fydd arnoch eu hangen i sicrhau fod eich sefydliad yn medru defnyddio'r llwyfannau digidol presennol a rhai'r dyfodol.

Darparwch gyfleoedd i aelodau'r cyhoedd a grwpiau cymunedol i drosglwyddo datrysiadau arfaethedig i faterion y mae eich sefydliad neu eich cymunedau wedi eu nodi drwy lwyfannau ar-lein

ee

E.e. Mae **Simply Do** wedi gweithio **gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr** i nodi sut y gellir datrys gordewdra.

Perchnogi'r Uchelgais

Mae yna arfer safonol o ddefnyddio ymagweddau arbennig ([‘snowball sampling’](#)) a dulliau o sgwrsio sy'n ymestyn tu hwnt i'r 'bobl arferol'.

E.e. [Mabwysiadodd Sgwrs Genedlaethol y Gymru a Garem yr ymagwedd hon drwy adnabod eiriolwyr a defnyddio grwpiau sy'n bodoli eisoes.](#)

Rydych yn ehangu eich defnydd o dechnoleg i ymgysylltu'n greadigol â phobl, megis realiti rhithwir a gemau i ysgogi cynllunio a gwneud penderfyniadau a'r canlyniadau posibl.

E.e. [Yr archwiliad hwn o offeryn realiti rhithwir ar gyfer cynllunio trefol a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol.](#)

Rydych yn defnyddio ymagweddau data agored tuag at rannu data, gan ddefnyddio rhwydwaith o gyfranwyr a chyfranogwyr i nodi datrysiadau.

E.e. [Mae Simply Do wedi bod yn gweithio gyda Chyrff Cyhoeddus ac Addysg Bellach i gynyddu syniadau a datrysiadau.](#)

Y defnydd o gynrychiolwyr wedi eu dethol ar hap a thrafodaeth wedi ei hwyluso, er enghraifft, Cynullïadau a Rheithgorau Dinasyddion yn dod yn arfer safonol.

E.e. [gwaith Interlink yn defnyddio'r gweithgor dinasyddion 'Mesur y Mynydd'](#)

Sicrhewch fod gan eich sefydliad sgiliau sydd eu hangen ar gyfer defnyddio llwyfannau cyfryngau digidol - chwiliwch am gyfleoedd i gydweithio gyda sefydliadau eraill i rannu ac/neu ddatblygu arbenigedd.

E.e. Mae **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** wedi cynhyrchu Llwyfan y Bobl a hefyd yn rhedeg Caffis Digidol i wella sgiliau staff a chydweithio gyda sefydliadau eraill sydd eisiau datblygu eu gallu digidol.